# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran E

## *DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG A GYFLWYNWYD 7 MEHEFIN 1999*

*R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

**OPIN 1999 - 0006 YR ANGEN AM ADOLYGIAD O GYFLOGAU AC AMODAU DARLITHWYR PRIFYSGOLION**

*Codwyd gan*

Jenny Randerson Canol Caerdydd [R]

Peter Black Gorllewin De Cymru

*Dim Tanysgrifwyr*

*Mae’r Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd Prifysgolion Caerdydd i’n prifddinas, ynghyd â’u cyfraniad i gryfder economaidd a diwylliannol Cymru gyfan. Yr ydym yn pryderu am y ffaith bod darlithwyr yng Nghaerdydd ac mewn mannau eraill yn teimlo mor ddigalon ynghylch y dirywiad yn yr amodau gwasanaeth, a methiant eu cyflogau i godi yn unol â chyflogau galwedigaethau tebyg, nes bod nifer ohonynt wedi mynd ar streic ar 25 Mai. Felly, credwn fod arnom angen adolygiad brys o gyflogau ac amodau yn ein prifysgolion, er mwyn sicrhau bod prifysgolion Cymru yn parhau i ffynnu.*